# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 24 Chwefror 2015**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda

(248)v3

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Cyflwyno'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) (60 munud)**

**4 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Treth ar waredu i safleoedd tirlenwi (30 munud)**

**5 Trefn trafod y gwelliannau i'r Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) (5 munud)**

**NDM5697 Leighton Andrews (Rhondda)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.36:

Yn cytuno i waredu'r adrannau a'r atodlenni i'r Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) yng Nghyfnod 3 yn y drefn ganlynol:

a) adrannau 2 - 25

b) adran 1

c) Teitl Hir

**6 Dadl ar Setliad yr Heddlu 2015-16 (60 munud)**

**NDM5699 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn unol ag Adran 84H o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, yn cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2015-2016 (Setliad Terfynol - Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu).

Gosodwyd copi o'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Chwefror 2015.

**Dogfen Ategol**
Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2015-2016 (Setliad Terfynol - Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu) (Saesneg yn unig)

**7 Dadl ar Adroddiad Blynyddol Estyn 2013-14 (60 munud)**

**NDM5698 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer 2013-14.

Gosodwyd copi o'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Chwefror 2015.

**Dogfen Ategol**

[Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer 2013-14]

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cymeradwyo agweddau cryfach ar addysg yng Nghymru, ond yn gresynu at y ffaith bod safonau cyffredinol yn dal i fod yn wan ac:

a) bod angen i ysgolion sydd ag arweinyddiaeth gref i rannu arferion gorau gydag ysgolion gwannach i roi hwb i safonau; a

b) bod angen i Lywodraeth Cymru wella mynediad at ddatblygiad proffesiynol parhaus a'r ddarpariaeth ohono ar gyfer athrawon newydd a phrofiadol.

**Gwelliant 2 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at gyflwr unedau cyfeirio disgyblion yng Nghymru y mae angen gwella pob un ond dau ohonynt.

**Gwelliant 3 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at ganfyddiad Estyn bod safonau mewn ysgolion cynradd wedi gostwng eleni, gyda chyfran yr ysgolion cynradd sydd â safonau da neu ragorol yn disgyn o saith ym mhob 10 i ychydig dros chwech ym mhob 10.

**Gwelliant 4 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at ganfyddiad Estyn bod disgyblion yn cael anhawster o ran defnyddio sgiliau rhifedd yn briodol ar draws y cwricwlwm mewn tua hanner ein hysgolion.

**Gwelliant 5 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod angen i Lywodraeth Cymru feithrin gallu'r gweithlu addysg i roi polisïau allweddol ar waith mewn modd effeithiol, fel y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol newydd.

**Gwelliant 6 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylai athrawon ym mhob rhan o Gymru gael mynediad i arfer gorau.

**8 Cyfnod pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 25 Chwefror 2015

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 19 Chwefror 2015 i'w hateb ar 24 Chwefror 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. **Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cynnal gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â datganoli rhagor o bwerau pellach i Gymru? OAQ(4)2130(FM)**W**

2. **Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr effaith y mae galwadau 999 diangen yn ei chael ar wasanaethau ambiwlans brys yng ngogledd Cymru? OAQ(4)2136(FM)

3. **Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddinas-ranbarth Caerdydd? OAQ(4)2124(FM)

4. **Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cefnogi galwadau i dreialu sefyll ddiogel yn stadia pêl-droed Cymru? OAQ(4)2128(FM)

5. **Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am warchod gwybodaeth bersonol cleifion y GIG? OAQ(4)2135(FM)

6. **Byron Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer y rhwydwaith cludiant cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)2131(FM)

**7. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Pa awydd sydd gan Lywodraeth Cymru i symud at gynllun taliadau sy'n seiliedig ar ardaloedd mewn perthynas â cholofn un o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin? OAQ(4)2132(FM)

**9. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael ynghylch astudiaeth ddiweddaraf Prifysgol Efrog ynghylch cymeradwyo cyffuriau drud? OAQ(4)2133(FM)

**9. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gamau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru i wella gofal llygaid i gleifion yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)2129(FM)

**10. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer cynyddu lefelau perchentyaeth yng Nghymru? OAQ(4)2121(FM)

**11. Ann Jones (Dyffryn Clwyd)** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynllun pensiwn y diffoddwyr tân? OAQ(4)2127(FM)**R**

**12. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr effaith y bydd cau cyffordd 41 yr M4 dros dro yn ei chael ar Bort Talbot? OAQ(4)2118(FM)

**13. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** Pryd y bydd y Prif Weinidog yn cynnal ei gyfarfod nesaf gyda Phrif Weinidog y Deyrnas Unedig? OAQ(4)2122(FM)**W**

**14. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau iechyd yng Nghymru? OAQ(4)2126(FM)**W**

**15. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y datblygiad Bro Abertawe? OAQ(4)2120(FM)

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn**

**Dydd Mawrth 3 Mawrth 2015 a dydd Mercher 4 Mawrth 2015**
**Dydd Mawrth 10 Mawrth 2015 a dydd Mercher 11 Mawrth 2015**
**Dydd Mawrth 17 Mawrth 2015 a dydd Mercher 18 Mawrth 2015**

---

**Dydd Mawrth 3 Mawrth 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Brif Weinidog Cymru: Cyhoeddiad Llywodraeth y DU ar broses Dydd Gŵyl Dewi (45 munud)
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 i amrywio trefn ystyried gwelliannau Cyfnod 3 i'r Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (5 munud)
- Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol ar Orchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu'r Pwyllgorau Cynghori ar Blaladdwyr) 2015 (15 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol y Bil Troseddu Difrifol (Memorandwm Rhif 4): Camfanteisio'n rhywiol ar blant ac adrodd gorfodol ynghylch anffurfio organau rhywiol merched (30 munud)
- Dadl Cyfnod 3 ar y Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) (240 munud)

**Dydd Mercher 4 Mawrth 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol ynghylch newid yn yr hinsawdd (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar adolygiad Donaldson o'r cwricwlwm a threfniadau asesu: y camau nesaf (30 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y gwaith craffu ar ôl deddfu o ran Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Mike Hedges (Dwyrain Abertawe) (30 munud) – *dygwyd ymlaen o 11 Mawrth 2015*

**Dydd Mawrth 10 Mawrth 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Dadl ar Ail Gyllideb Atodol 2014-15 (30 munud)
- Dadl Cyfnod 4 ar y Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) (15 munud)
- Dadl Cyfnod 3 ar y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (180 munud)

**Dydd Mercher 11 Mawrth 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth (45munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (15 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar yr ymchwiliad i ailgylchu yng Nghymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Russell George (Sir Drefaldwyn) (30 munud) - *gohiriwyd o ddydd Mercher 4 Mawrth 2015*

**Dydd Mawrth 17 Mawrth 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch Mynediad at Gyllid (30 munud)
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Darpariaethau Canlyniadol) 2015 (15 munud)
- Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Diwygio) 2015 (15 munud)
- Dadl ar Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru 2013-2014 (60 munud)
- Dadl ar Gyflog Cyfartal (60 munud)

**Dydd Mercher 18 Mawrth 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)
- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Leanne Wood (Canol De Cymru) (30 munud)